OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 3250 (Cy.294)

HADAU, CYMRU

Rheoliadau Hadau Yd (Cymru) a Hadau Planhigion Porthiant (Cymru) (Diwygio) 2006

Wedi'u gwneud - -	*5 Rhagfyr 2006*
Yn dod i rym - -	*20 Rhagfyr 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 16(1), (1A), (3) a (4) o Ddeddf Amrywogaethau a Hadau Planhigion 1964(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddo(**2**).

Yn unol ag adran 16(1) o'r Ddeddf honno mae wedi ymgynghori â chynrychiolwyr y buddiannau hynny y mae'n ymddangos iddo yr effeithir arnynt.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Hadau Ŷd (Cymru) a Hadau Planhigion Porthiant (Cymru) (Diwygio) 2006.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn dod i rym ar 20 Rhagfyr 2006.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Rheoliadau Hadau Ŷd (Cymru) 2005

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Hadau Ŷd (Cymru) 2005(**3**) fel a ganlyn.

(2) Yng ngholofn 3 o'r Tabl yn Atodlen 7 (pwysau lotiau a samplau), yn lle "25", pa le bynnag yr ymddengys, rhodder "30".

Diwygio Rheoliadau Hadau Planhigion Porthiant (Cymru) 2005

3.—(1) Diwygir Rheoliadau Hadau Planhigion Porthiant (Cymru) 2005(**4**) fel a ganlyn.

(**1**) 1964 p.14; diwygiwyd adran 16 gan adran 4(1) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (p. 68), a pharagraff 5(1), (2) a (3) o Atodlen 4 iddi), O.S. 1977/1112, ac adran 2 o Ddeddf Amaeth 1986 (p.49); *gweler* adran 38(1) i gael diffiniad o "*the Minister*".

(**2**) O dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd o dan Ddeddf Amrywogaethau a Hadau Planhigion 1964 a gafodd eu trosglwyddo i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Cymru) (Rhif 1) 1978 (O.S. 1978/272, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

(**3**) O.S. 2005/3036 (Cy. 224).

(**4**) O.S. 2005/1207 (Cy. 79).